**Ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (CYPE) ar Hawliau Plant yng Nghymru**

**1. I ba raddau mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 ("y Mesur") wedi dylanwadu ar benderfyniadau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys ei dyraniadau ariannol ac a yw wedi cyflawni 'mesurau cyffredinol' rhoi'r Confensiwn ar waith**

Wrth gyflwyno'r Mesur daeth Cymru'n genedl oedd yn arwain ar draws y Deyrnas Unedig, trwy ymgorffori hawliau CCUHP yn uniongyrchol i gyfraith Cymru. Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod bod gan blant yng Nghymru yr holl hawliau hyn eisoes, yn rhinwedd eu hoedran. Mae eu hawliau'n deillio'n uniongyrchol o CCUHP, ac felly nid y Mesur sy'n *rhoi'r* hawliau hynny, mae'n syml yn eu tynnu i lawr i lefel cyfraith Cymru. Trwy wneud hynny, mae'r Mesur yn ymdrin â sut mae Llywodraeth Cymru yn cyflawni'r hawliau hyn yng Nghymru.

Yn fy adroddiad blynyddol ar gyfer 2017-18[1] rwy'n cynnwys meddyliau ynghylch y mesurau gweithredu cyffredinol, gan gynnwys y broses o Adrodd am Gydymffurfio a'r defnydd o Asesiadau Effaith ar Hawliau Plant (CRIA). Mae adrodd am gydymffurfio, dyletswydd sylw dyledus (i Weinidogion) a chynllun hawliau plant wedi'u cynnwys yn y Mesur. Yn yr ymateb hwn bydda i'n trafod yn fanwl fy asesiad o effeithiolrwydd y mesurau dan sylw ar hyn o bryd.

Fe wnes i ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig ar gyfer yr adroddiad a gomisiynwyd gan yr EHRC ynghylch integreiddio cyfreithiol i'r CCUHP, adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2019.[2] Daeth yr adroddiad hwnnw i'r casgliad bod y Mesur wedi gwreiddio CCUHP yn y gwaith o lunio polisi yng Nghymru trwy ddyletswydd sylw dyledus, a hefyd trwy gynyddu ymwybyddiaeth o hawliau plant a'u gwelededd ar draws y Llywodraeth. Byddwn i'n cytuno â'r casgliad hwn, ond rwy'n rhannu'r pryderon nad yw hyn wedi arwain at "arfer da cyson" oherwydd bod "CRIA yn cael eu cymhwyso'n anwastad". Byddaf yn dychwelyd at hyn yn ddiweddarach yn fy nhystiolaeth ym mhwynt 6 isod.

Yng nghyswllt cyllidebu, rhoddais dystiolaeth ysgrifenedig[3] a llafar[4] manwl i'r Ymchwiliad ar y cyd gan dri o bwyllgorau'r Cynulliad ynghylch cyllidebau ac asesiadau effaith. Fel rhan o'r dystiolaeth honno fe nodais fy mhryderon ynghylch diffyg ystyriaeth i hawliau plant fel mater o drefn yn y broses o bennu cyllideb, oedd wedi arwain at benderfyniadau i dorri rhai llinellau cyllideb heb ddealltwriaeth wirioneddol o'r hyn roedd y gyllideb honno'n ei ddarparu a'r manteision i blant, nac ystyriaeth chwaith ynghylch a oes unrhyw linellau cyllideb yn gorgyffwrdd neu'n gadael bylchau lle mae un adran yn rhagdybio y bydd un arall yn delio gyda'r ddarpariaeth honno. Rhai enghreifftiau o hyn yw grantiau gwisg ysgol a chyllid ar gyfer dysgwyr o dan anfantais, ac arian ar gyfer Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgol Cymru Gyfan (SchoolBeat) a ddarparwyd ar y cyd â'r Heddlu. Er fy mod i'n falch bod dylanwad fy swyddfa a'r Pwyllgor hwn, yn ogystal ag eraill, wedi llwyddo i wyrdroi'r penderfyniadau

---

[1] https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2018/09/Annual-Report-2017-18.pdf tudalennau 35-39

[2] Hoffman ac O'Neill 'The impact of legal integration of the UN Convention on the Rights of the Child in Wales' https://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/the_impact_of_legal_integration_of_the_un_convention_on_the_rights_of_the_child_in_wales_eng.pdf

[3] http://www.senedd.assembly.wales/documents/s80336/Written%20evidence%20Childrens%20Commissioner%20for%20Wales%20-%20Impact%20assessments%20in%20relation%20to%20the%20draft%20bu.pdf

[4] http://senedd.assembly.wales/ieListDocuments.aspx?CId=440&MId=5398&Ver=4

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

hynny, byddai CRIA manwl wedi gallu nodi'r meysydd hynny lle roedd gorgyffwrdd cyn i'r penderfyniadau cyllideb gael eu cyhoeddi.

Rwy'n croesawu'r adroddiad ar y cyd gan y pwyllgorau yn dilyn y craffu hwn, ond cefais fy siomi wrth nodi ymateb y Llywodraeth i'r adroddiad hwnnw, fel y nodwyd yn fy ngohebiaeth ddilynol o fis Mehefin 2019[5]. Ymddengys mai barn y Llywodraeth yw y byddai cyhoeddi asesiadau effaith mewn man canolog yn achosi dryswch os ydynt eisoes wedi'u cyhoeddi yng nghyswllt penderfyniadau polisi unigol. Nid yn unig mae hyn yn ddiffygiol o ran tryloywder, nid yw chwaith yn ymdrin â mater ehangach cyfuno penderfyniadau polisi unigol i'w hystyried *ar y cyd* yn hytrach nag ochr yn ochr yn unig. Carwn nodi hefyd fod fy swyddfa'n dal heb weld cysondeb a thryloywder wrth gyhoeddi'r asesiadau effaith hyn yng nghyswllt penderfyniadau polisi unigol, yn arbennig adeg ymgynghori â'r cyhoedd.

Rwyf i fod i gwrdd â'r Gweinidog Cyllid ar 23 Medi 2019 cyn i gyllideb eleni gael ei chyhoeddi. Rwy'n deall bod dull gweithredu gwahanol, trawslywodraethol yn cael ei ddefnyddio wrth bennu'r gyllideb eleni, ac rwy'n edrych ymlaen at glywed mwy am hynny pan fyddwn ni'n cwrdd. Bydda i'n fwy na pharod i ddychwelyd at hyn yn y dystiolaeth lafar naill ai ar gyfer yr ymchwiliad hwn neu wrth graffu ymhellach ar y gyllideb yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Un agwedd allweddol ar weithredu CCUHP yw meddu ar sefydliad hawliau dynol annibynnol sy'n gallu galw deiliaid dyletswydd i gyfrif; dyma'r sylfaen ar gyfer creu fy rôl. Yn ystod haf 2019 cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad â chyrff cyhoeddus a ariannir, ynghylch newid y ffyrdd o ddarparu cyllid (Ymgynghoriad ar Orchymyn Newid Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllideb a Chyrff Dynodedig)). Roedd y cynnig yn cynnwys newidiadau i sut byddai cyllid yn cael ei dynnu i lawr o gronfeydd y Llywodraeth a'r sefydliad, yn bennaf yn ein hachos ni er mwyn i mi fedru defnyddio fy mhwerau ar unrhyw adeg.

Fel Swyddog Cyfrifyddu sy'n derbyn arian cyhoeddus, nid oeddwn yn gwrthwynebu cynlluniau yn y ddogfen ymgynghori er mwyn "symleiddio systemau, gwella cysondeb a thryloywder cyllid Llywodraeth Cymru a darparu atebolrwydd cliriach i'r Cynulliad ac i'r cyhoedd." Serch hynny, cododd y diffyg manylion o fewn yr ymgynghoriad ynghylch unrhyw brosesau newydd bryderon ynghylch goblygiadau – neu o bosib ganlyniadau anfwriadol – y newidiadau hyn ar statws annibynnol fy swydd.

Er enghraifft, yn fy ymateb i'r ymgynghoriad fe godais bryderon y gallai'r anallu i gadw cronfeydd olygu bod rhaid i'm swyddfa gyflwyno cais ffurfiol i'r llywodraeth am gyllid petawn i'n bwriadu defnyddio fy mhwerau i adolygu swyddogaethau'r Llywodraeth. Rwyf fi, a Chomisiynwyr eraill Cymru, yn disgwyl am ganlyniadau'r ymgynghoriad.

Mae Egwyddorion Paris[6] – sy'n sefydlu'r isafswm safonau gofynnol ar gyfer gweithrediad effeithiol ac annibyniaeth sefydliadau hawliau dynol – yn gofyn bod sefydliad cenedlaethol fel Comisiynydd Plant Cymru:

[5] http://www.senedd.assembly.wales/documents/s90681/CYPE5-21-19%20-%20Paper%202%20-%20Childrens%20Commissioner%20for%20Wales.pdf
[6] https://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/paris_principles.pdf

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

"Yn gorfod bod â seilwaith sy'n addas ar gyfer cynnal ei weithgareddau'n ddirwystr, yn arbennig cyllid digonol. Diben y cyllid hwn ddylai fod ei alluogi i feddu ar ei staff a'i safle ei hun, er mwyn bod yn annibynnol ar y Llywodraeth a heb fod yn destun rheolaeth ariannol a allai effeithio ar ei annibyniaeth."

Mae Llywodraeth Cymru, sy'n unig ffynhonnell refeniw ers i'r corff hwn gael ei sefydlu yn 2001, (gan gynnwys y cyn-Brif Weinidog) wedi bod yn eglur gyda phob un o ddeiliaid y swydd na ddylai fod – ac na fu, hyd yma – unrhyw ymyrraeth â sut rydym ni'n pennu ein blaenoriaethau a'n gweithgareddau. Hoffwn gydnabod nad wyf hyd yma wedi profi unrhyw ymyrraeth gan y Llywodraeth o ran sut rwy'n gwneud fy ngwaith. Serch hynny, arweiniodd yr ymgynghoriad diweddar hwn fi i godi rhai pryderon ynghylch y mater yma gyda'r Llywodraeth.

Ni ddylai fod "gradd briodol o annibyniaeth ar Weinidogion Cymru", fel yr oedd y ddogfen ymgynghori ar y cyllidebau yn awgrymu; yn hytrach dylai'r sefydliad hawliau dynol cenedlaethol hwn gael ei drin fel un sy'n gwbl annibynnol ar y Llywodraeth a Gweinidogion Cymru. Fel arall, mae perygl y gallai'r union gyrff cyhoeddus y sefydlwyd y swydd hon i fwrw golwg drostynt a'u herio gyfyngu ar ddeilydd y swydd hon. Nodaf farn y Prif Weinidog blaenorol, pan godwyd y mater hwn gydag ef o'r blaen, sef na fu problem o ran annibyniaeth erioed, ac felly nad oedd yn barnu bod hynny'n flaenoriaeth. Er fy mod i'n cydnabod na fu problem, nid oedd unrhyw fesurau ffurfiol i ddiogelu statws rôl y Comisiynydd petai agwedd wahanol gan unrhyw Lywodraeth yn y dyfodol.

Penodir Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru; yr ochr ddeddfwriaethol yn hytrach na'r weithrediaeth. Mae hynny'n caniatáu annibyniaeth lwyr, ond hefyd gyfleoedd rheolaidd i graffu ar y gyllideb a gwaith dylanwadu. Carwn annog y Pwyllgor i ystyried a yw'r Ymchwiliad hwn yn gyfle i awgrymu newidiadau mewn perthynas â'm rôl i ddiogelu ac amddiffyn ei hannibyniaeth, ac osgoi canlyniadau anfwriadol datblygiadau diweddaraf y Llywodraeth. Mae hwn yn fater a godais o'r blaen, er enghraifft mewn ymateb i adolygiad Shooter o swyddogaethau fy swyddfa.[7] Roedd fy ymateb i'r adolygiad hwnnw yn awgrymu ehangu fy nghylch gorchwyl i bob mater sy'n effeithio ar fywydau plant, nid dim ond meysydd sydd wedi'u datganoli, gan na ellir rhannu profiadau plant yn dwt yn faterion sydd wedi'u datganoli a rhai heb eu datganoli.

I grynhoi, mae bodolaeth y Mesur yn bendant wedi bod yn gam cadarnhaol tuag at gyflwyno hawliau plant i drafodaeth llunwyr polisi a phenderfyniadau. Fodd bynnag, nid wyf yn sicr eto bod hynny wedi'i wreiddio'n ddigonol ar draws y Llywodraeth, na bod y mesurau gweithredu cyffredinol, gan gynnwys cyllidebu ar gyfer plant, wedi symud ymlaen yn ddigonol nes digwydd fel mater o drefn ym mhob adran. Mae hyn yn arwain ymlaen at y cwestiwn nesaf lle rwy'n ystyried i ba raddau mae'r Mesur yn gysylltiedig â gwell canlyniadau i blant.

## 2. Tystiolaeth ynghylch a yw'r Mesur wedi arwain at well canlyniadau i blant a phobl ifanc

Rwy'n credu bod bodolaeth y Mesur a'r disgwrs ynghylch hawliau plant o ganlyniad wedi helpu i baratoi'r ffordd ar gyfer polisïau fel dileu amddiffyniad cosb resymol, sy'n mynd trwy'r Cynulliad ar hyn o bryd. Mae bwriad polisi a'r dogfennau ategol ar gyfer y Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb

[7] https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2016/04/Response-to-CCFW-Independent-Review.pdf

Resymol)(Cymru) wedi'u fframio'n eglur gan hawliau plant, ac roedd y dystiolaeth a gafwyd gan y Pwyllgor hwn yng Nghyfnod 1 yn adlewyrchu pwysigrwydd y Bil o ran cynnal hawliau plant i gael amddiffyniad a bywyd teuluol diogel, a symud hynny ymlaen.

Mae'n rhy gynnar i nodi a fydd hynny'n digwydd yn ymarferol, wrth gwrs, er fy mod i'n nodi argymhelliad y Pwyllgor hwn i gytuno ag egwyddorion cyffredinol y Bil. Dyma'r math o bolisi a fydd yn elwa o werthusiad dilynol, fel yr argymhellwyd yn yr adroddiad Cyfnod 1, er mwyn asesu a dadansoddi beth sy'n gweithio i wella canlyniadau plant. Mae bodolaeth y Mesur a'i effaith ar bolisïau a chanllawiau yn cael ei weld yn araf, ac rwy'n cydnabod bod newid agweddau a meddylfryd yn cymryd amser, ond byddwn i'n dadlau bod y Mesur eisoes wedi gwneud hyn i ryw raddau yng nghyfnod pennu'r polisi. Rwy'n llai sicr o'r newid, neu nid wyf wedi ei weld mor amlwg eto yng nghyswllt canlyniadau i blant, ac mae'n bosibl bod modd egluro hynny yn sgîl y diffyg ffocws ar gyflawni canlyniadau yn y Mesur ei hun na'r Cynllun fel y mae ar hyn o bryd.

Meysydd eraill perthnasol a fyddai'n elwa o graffu parhaus o'r fath fyddai'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) a chynigion newydd y cwricwlwm. Nid yw'r naill na'r llall o'r rhain mewn grym eto, ond maent yn enghreifftiau amlwg o bolisïau penodol i blant a *ddylai* gael eu gwreiddio mewn hawliau ac arwain at wella canlyniadau.

Mae'n aneglur i mi ar hyn o bryd a yw Llywodraeth Cymru'n monitro canlyniadau penderfyniadau polisi i blant, neu sut mae'n gwneud hynny. Bydd llawer CRIA yn argymell adolygiad ar ôl blwyddyn i fonitro cynnydd yn erbyn y rhagdybiaethau a wnaed adeg datblygu'r polisi, ond ni allaf gofio gweld CRIA wedi'i gyhoeddi a ddiweddarwyd fel hyn.

Gofynnodd fy adborth ar Gynllun Hawliau Plant diwygiedig drafft, ym mis Mai 2019, i swyddogion y Llywodraeth sut byddai cynllun diwygiedig yn symud y ffocws o ddata rhifol i fonitro canlyniadau, ac a oedd modd cynnwys targedau neu nodau i geisio cynnydd, neu beidio. Hwn oedd un o'r prif nodau a bennwyd yn eu Hadroddiad Cydymffurfio yn 2018. Ceir rhagor o fanylion am hyn ym mhwynt 7 isod.

Mae Adran 6 o'r Mesur yn caniatáu i'r Llywodraeth wneud newidiadau i ddeddfwriaeth os yw'n "dod i'r casgliad y byddai'n ddymunol, at ddiben cyflawni hawliau a rhwymedigaethau CCUHP yn well neu ymhellach". Fodd bynnag, mae geiriad yr Adran hon yn golygu na chaiff y Llywodraeth wneud hynny ond os yw eisoes wedi dod i'r casgliad yn eu hadroddiad eu hunain, gan gynnwys yr Adroddiad Cydymffurfio, y byddai'n werth gwneud hynny. Nid yw'r Adroddiad Cydymffurfio wedi ystyried meysydd polisi unigol yn y gorffennol, ac nid wyf wedi gweld newidiadau posibl i'r gyfraith yn deillio o adroddiad o'r fath. Rhagdybir yn aml, ar gam, y byddai Adran 6 yn caniatáu i eraill, gan fy nghynnwys i, awgrymu newidiadau i gyfreithiau, fel y byddaf yn gwneud trwy argymhellion fy adroddiadau polisi thematig a'm Hadroddiad Blynyddol. Er bod rhyddid i unrhyw berson gynnal adolygiad barnwrol o sut mae'r Llywodraeth yn ymarfer dyletswydd sylw dyledus wrth greu neu addasu polisïau, nid yw honno'n broses gyflym na syml. Cafodd Adran 6 ei hystyried yn llwybr ar gyfer cyflwyno syniadau o'r fath, ond nid yw ei geiriad presennol yn golygu ei bod yn arbennig o agored i gyflawni newid polisi a allai arwain at well canlyniadau i blant. Ar hyn o bryd mae hynny'n golygu bod bwlch posibl yn atebolrwydd llunio polisïau yng nghyswllt plant a phobl ifanc; gwaethygir hynny gan ddiffyg dyletswydd sy'n gyffredinol berthnasol i gyrff cyhoeddus mewn perthynas â hawliau plant. Byddaf yn rhoi sylw mwy manwl i hyn ym mhwynt 4 isod.

## 3. A yw'r dyletswyddau sy'n rhan o'r Mesur wedi cael eu gwreiddio'n effeithiol ar draws portffolios a pholisïau Llywodraeth Cymru

Er gwaethaf galwadau i wneud hynny, mae'r Llywodraeth wedi colli cyfle i bortreadu ei hymrwymiad absoliwt i hawliau plant trwy hepgor hynny o *Ffyniant i Bawb*[8], nad yw'n cyfeirio'n agored at hawliau plant o dan CCUHP. Pan gyflwynir polisïau neu ymgyngoriadau, cyfeirir wedyn at y strategaeth hon fel y rheswm gwreiddiol neu'r cefndir ar gyfer cyflwyno darnau penodol o waith. Gwaetha'r modd, yn absenoldeb cysylltiadau clir â hawliau plant ar hyd y strategaeth hon, nid yw'r polisïau dilynol o ganlyniad wedi'u seilio ar ddull gweithredu seiliedig ar hawliau plant. Yr enghraifft gliriaf o hyn, o bell ffordd, fyddai telerau'r Cynnig Gofal Plant, a bydd y pwyllgor yn gyfarwydd iawn â'm galwadau ynghylch y diffyg ystyriaeth i hawliau plant a dyletswyddau cydraddoldeb wrth symud y polisi hwnnw ymlaen[9].

Nid yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), sy'n cael lle amlwg mewn llawer o strategaethau gan gynnwys Ffyniant i Bawb, yn cynnwys unrhyw gyfeiriad at hawliau dynol ar ei hwyneb. Mae'r canllawiau statudol sy'n cyd-fynd â'r Ddeddf yn nodi bod ei hegwyddorion yn "cefnogi" ymrwymiadau sydd eisoes yn bodoli i'r Iaith Gymraeg, cydraddoldeb a CCUHP. Mae swyddfeydd y Comisiynydd Plant a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi datblygu adnoddau sy'n dangos sut mae'r ddwy elfen yn cydweddu â'i gilydd[10]. Er bod hyn wedi dangos sut mae dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant yn cefnogi cynnydd tuag at nodau llesiant, nid yw'n golygu bod modd i'r egwyddorion llesiant ddisodli hawliau plant, gan fod yr iaith a'r cwmpas yn gwbl wahanol. Mae llesiant yn cwmpasu pob oed ac nid yw'n diogelu hawliau cynhenid plant yn yr un modd â dull gweithredu unigryw seiliedig ar hawliau plant.

Oherwydd bod dyletswydd sylw dyledus yn y Mesur *dylai* hawliau plant gael eu gwreiddio a'u hystyried o'r cychwyn cyntaf wrth ddatblygu polisi. Fodd bynnag, mae'r arfer o gwblhau CRIA tua diwedd y cyfnod datblygu, i adlewyrchu penderfyniadau a wnaed eisoes, yn ddigon cyffredin, ac mae'n golygu bod hawliau, mewn gwirionedd, yn cael eu ffitio o amgylch y penderfyniadau, yn hytrach na chael eu defnyddio i yrru datblygiad a bwriad polisïau.

Rwyf wedi galw droeon ar y Llywodraeth, trwy adroddiadau ysgrifenedig ac mewn cyfarfodydd wyneb yn wyneb, i gyflwyno is-Bwyllgor Cabinet i ystyried materion plant. Trafodais hyn ddiwethaf gyda Phrif Weinidog presennol Cymru ym mis Ionawr 2019; er ei fod yn dal heb fwriadu sefydlu is-bwyllgor penodol, roedd yn cynnig cyflwyno trafodaethau cabinet 'thematig' ar bolisïau neu bynciau penodol, am yn ail â chyfarfodydd fformat rheolaidd y Cabinet, fel bod modd trafod ar draws y llywodraeth. Roedd cynnig y gellid o bosibl wahodd rhai o'r tu allan i gyfarfodydd o'r fath, gan gynnwys fy swyddfa innau, ond ni chefais wahoddiad hyd yma.

Digwyddodd y trafodaethau hyn ar adeg pan oeddwn i'n rhwystredig ynghylch y diffyg 'cydlynu' ar draws y Llywodraeth ar faterion plant. Er bod swydd benodol i Weinidog i'w chroesawu, bydd

---

[8] https://gweddill.gov.wales/docs/strategies/170919-prosperity-for-all-en.pdf

[9] http://senedd.assembly.wales/documents/s75785/CCF%2002%20Childrens%20Commissioner%20for%20Wales.pdf

[10] https://www.childcomwales.org.uk/resources/childrens-rights-approach/future-fit-children/

materion perthnasol i blant yn y rhan fwyaf o bortffolios. Rwy'n cwrdd â nifer o weinidogion yn flynyddol o leiaf, gan gynnwys y Gweinidogion Addysg, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a Thrafnidiaeth. Rwy'n cwrdd â'r Dirprwy Weinidog bob chwarter, pryd y cawn ni gyfle i drafod yn fanwl y materion mwyaf cyfredol, ac mae ymdrechion yn parhau i sicrhau cyfarfod ar y cyd â'r Gweinidog Iechyd. Mae'r cyfarfodydd gyda'r Dirprwy Weinidog yn parhau am awr gyfan bob chwarter.

Rwyf wedi gorfod codi materion megis Dewis Addysgu Gartref, opsiynau llety diogel ar gyfer pobl ifanc ag anghenion cymhleth a chefnogaeth ar gyfer iechyd a llesiant plant gyda Gweinidogion, Prif Weinidog Cymru, Pennaeth Swyddfa'r Cabinet a'r Ysgrifennydd Parhaol, er mwyn dod ag adrannau a swyddogion ynghyd. Ddwywaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rwyf wedi trefnu cyfarfodydd rhwng swyddogion uwch o wahanol adrannau i geisio sicrhau cynnydd mewn cynlluniau amlddisgyblaeth ar gyfer llety preswyl i blant ag anghenion cymhleth o ran iechyd meddwl a gofal cymdeithasol.

Rwy'n falch bod y Gweinidogion Iechyd ac Addysg bellach yn cynnal grŵp Cynghori Gweinidogol ar y cyd ynghylch Dull Ysgol Gyfan o ymdrin â llesiant, ond dilynodd hynny flwyddyn o waith dylanwadu, gan gynnwys cyfarfod ar y cyd â'r dau weinidog lle dywedwyd nad oeddent yn cydnabod y problemau o ran diffyg gwaith ar y cyd yr oeddwn yn eu codi. Rwy'n ymwybodol bod y Gweinidog Addysg hwn wedi mynegi'r farn honno hefyd mewn tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor fel rhan o'r ymchwiliad *Cadernid Meddwl*. Yn absenoldeb strwythurau ffurfiol i ddod â'r trafodaethau hyn ynghyd, nid wyf yn sicr y byddant yn digwydd yn awtomatig. Er y byddaf yn parhau i wneud hynny os ymddengys bod galw, ni ddylai fod angen i mi alw cyfarfodydd er mwyn i'r adrannau a'r Gweinidogion hyn weithio gyda'i gilydd.

I grynhoi, nid ymddengys bod y Mesur wedi'i wreiddio'n llawn ar draws y Llywodraeth; mae meysydd eraill oddi mewn i'r ymateb hwn lle rwy'n awgrymu ffyrdd posibl o gyflawni hynny, ond mewn perthynas â'r pwynt penodol hwn rwy'n credu mai mecanwaith neu ystod o fecanweithiau sy'n cynnwys rhwydweithiau neu bwyllgorau cabinet fydd yr unig ffordd o sicrhau bod hyn yn digwydd yn effeithiol ac fel mater o drefn. Rwy'n croesawu'r ymdrechion sy'n cael eu gwneud, er enghraifft, i drafod materion a godwyd yn amlwg, fel y polisïau a enwir yma a phynciau ehangach fel y gyllideb, ond nid yw'r Mesur ei hun yn sicrhau y bydd hyn yn digwydd fel mater o drefn yn y dyfodol.

**4. I ba raddau mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio sicrhau bod ei dyletswyddau fel rhan o'r Mesur yn cael eu trosi i waith y cyrff cyhoeddus y mae'n eu hariannu, gan gynnwys awdurdodau lleol a chyrff GIG**

Ar hyn o bryd, nid yw dyletswydd sylw dyledus yn berthnasol i holl gyrff cyhoeddus Cymru. Trwy ymdrechion lobïo a thrwy gefnogaeth sylweddol gan y Pwyllgor hwn, ychwanegwyd dyletswyddau tebyg at Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 er mwyn gwreiddio hawliau yn y cyfreithiau y bydd cyrff cyhoeddus yn eu cymhwyso, er lles plant ledled Cymru. Ar y ddau achlysur roedd hyn yn galw am dablu newidiadau gan nad oedd y Llywodraeth yn barod i ychwanegu'r dyletswyddau at y Biliau drafft. Y Bil Cwricwlwm ac Asesu sydd ar droed fydd y darn nesaf perthnasol o ddeddfwriaeth benodol i blant, lle byddai'n gwbl synhwyrol cynnwys dyletswydd sylw dyledus. Byddai hynny'n golygu ei fod yn cyfateb i'r cynigion ADY ac yn osgoi creu sefyllfa lle mae gan rai plant a phobl ifanc

ddarpariaethau CCUHP yn neddfwriaeth eu gwlad ynghylch eu haddysg, ond nad yw hynny'n wir am eraill. Byddai'r cam hwn hefyd yn golygu bod Cymru yn arweinydd rhyngwladol o ran yr hawliau a brofir yn amgylchedd yr ysgol. Rwyf wedi trafod hyn yn hir gyda swyddogion polisi a'r Gweinidog Addysg, ac wedi cyflwyno papurau manwl ac ymatebion ymgynghori arno. Mae fy mhapur safbwynt a gyhoeddwyd i'w ganfod yma[11]ac mae'n cyflwyno dadl glir, gydlynus o blaid manteision gwreiddio hawliau yn y cwricwlwm i'n holl ddysgwyr.

Yn 2018 fe gyflwynais bapur i swyddogion o'r Gangen Plant (fy nghangen gyswllt yn y Llywodraeth) ar ymgorffori CCUHP ymhellach i gyfraith Cymru, yn dilyn trafodaethau ar hynny gyda'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol ar y pryd yn ein cyfarfodydd chwarterol. Ar yr adeg honno, cyhoeddodd Arweinydd y Tŷ ar y pryd fod bwriad i gomisiynu ymchwil ar yr ystod o gytuniadau sy'n berthnasol i Gymru a lefelau uniongyrchol ac anuniongyrchol eu hymgorffori, gyda golwg ar archwilio estyniadau posibl, ac mae fy swyddfa'n cael ei chynrychioli ar grŵp llywio ar gyfer y gwaith hwn. Dylai'r gwaith hwn gynnwys ystyried estyn y Mesur er mwyn cyflawni hawliau plant yn fwy. Yn absenoldeb dyletswydd sylw dyledus ehangach mae'n dal yn hanfodol ychwanegu dyletswyddau at y Deddfau perthnasol er mwyn trosi'r Confensiwn yn ffyrdd uniongyrchol berthnasol o weithredu a gwireddu hawilau ar gyfer plant yn eu bywydau beunyddiol.

At ei gilydd, byddwn i'n ffafrio ymgorffori CCUHP yn fwy trwy osod dyletswydd ar bob corff cyhoeddus i weithredu'n unol â CCUHP wrth gyflawni eu dyletswyddau. Mae fy rôl innau yn gofyn fy mod yn rhoi sylw i CCUHP wrth gyflawni fy swyddogaethau[11].

Er bod y Mesur yn gam pwysig ymlaen, nid yw'n gyfystyr ag ymgorffori CCUHP yn llawn ac yn uniongyrchol. Mae hynny'n golygu nad oes modd i aelodau o'r cyhoedd, gan gynnwys plant, herio'n uniongyrchol am dorri eu hawliau o dan CCUHP.

Yr enghraifft agosaf ar lefel y Deyrnas Unedig yw Deddf Hawliau Dynol 1998 (HRA), lle mae'n rhaid i gyrff weithredu'n unol â'r hawliau y mae'n eu cyflwyno'n uniongyrchol o dan y gyfraith. Gall unigolyn/person gyflwyno achos yn erbyn corff am dorri hawl benodol o dan y Ddeddf honno.

Dylai bodolaeth dyletswydd gyfreithiol a gallu i herio ynddo'i hun fod yn ddigon i newid diwylliant a dulliau o ymdrin â pholisi. Nid mater o gynyddu nifer/amlder yr heriau cyfreithiol gwirioneddol yw ymgorffori uniongyrchol llawn, ond gwreiddio'r dyletswyddau mewn polisi ac ymarfer, fel nad oes rhaid i bobl gyflwyno heriau o'r fath.

Bydd llysoedd Cymru a Lloegr eisoes yn cyfeirio at erthyglau perthnasol CCUHP wrth ddelio gydag achosion HRA, ond ni allant ddyfarnu'n uniongyrchol ar achos o dorri CCUHP oherwydd diffyg ymgorffori. Yn y pen pellaf un gellir datgan bod cyfreithiau penodol yn "anghydnaws" â'r HRA, gan ddefnyddio achos. Yng Nghymru, mae hynny'n beth prin iawn, ond mae'n llawer cryfach nag adran 6 gyfredol y Mesur, na fydd yn caniatáu i Lywodraeth Cymru wyrdroi neu ddiwygio cyfraith Cymru ond os yw'r Llywodraeth ei hun wedi dod i gasgliad trwy adroddiad sy'n nodi bod y gyfraith honno'n annigonol.

[10] https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2018/11/CCFW-Children-Rights-and-Curriculum-Reform-Position-Paper-2018.pdf

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn mabwysiadu agwedd at gydymffurfio ac adrodd a all fod yn fwy beichus i lywodraethau oherwydd y gofynion monitro parhaus, felly mae ymgorffori uniongyrchol mewn gwirionedd yn llai o faich yn yr ystyr honno.

Mae Deddf Cymru 2017 yn cyflwyno'r amheuon ynghylch cysylltiadau rhyngwladol, ond nid yw Llywodraeth Cymru yn cael ei hatal rhag "parchu a gweithredu rhwymedigaethau rhyngwladol, rhwymedigaethau o dan y Confensiwn Hawliau Dynol a rhwymedigaethau o dan gyfraith yr UE"[12]. Dylid nodi bod Llywodraeth yr Alban yn bwriadu ymgorffori CCUHP yn llawn i gyfraith yr Alban, a'u bod wedi ymgynghori ar y cynigion hynny'n ddiweddar.

**Goblygiadau ymarferol ymgorffori pellach**

- Mae'n cyflwyno neges glir ar statws plant, gan arwain at newid diwylliant
- Mae'n berthnasol i bob person proffesiynol, nid gweinidogion yn unig
- Mae'n creu'r posibilrwydd o ddefnyddio CCUHP wrth ymgyfreitha
- Mae CCUHP yn caniatáu ar gyfer gwireddu cynyddol
- Mae'n galluogi atebolrwydd o safbwynt hawliau dynol plant

Yn absenoldeb dyletswydd ragweithiol ar gyrff cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau lleol a chyrff iechyd, fe gyhoeddais *Y Ffordd Gywir*[13], canllaw ymarferol i roi dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant ar waith. Ers 2016 rwyf wedi cyhoeddi cyfres o adnoddau, gan gynnwys canllaw penodol ar gyfer lleoliadau addysg, a dogfennau rhyngweithiol sy'n caniatáu i sefydliadau hunanasesu eu cynnydd mewn perthynas â hawliau plant. Mae'r holl ddeunyddiau'n cynnwys enghreifftiau ymarferol a chyngor ynghylch sut gallai hyn edrych ym mhob sefydliad a sut mae sefydliadau eraill wedi llwyddo i gynnwys plant a hawliau plant yn eu gwaith o ddydd i ddydd. Ar ben hynny, mae fy adroddiadau thematig fel adolygiad *Bywydau Llawn*[14] o fynediad i gadeiriau olwyn mewn ysgolion ac adroddiad *Paid dal yn ôl*, oedd yn edrych ar gefnogaeth bontio i bobl ifanc ag anabledd dysgu, yn cynnwys enghreifftiau cymwysedig o sut gallai dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant estyn gwaith cyrff cyhoeddus sy'n rhyngweithio â'r bobl ifanc hyn. Rwyf hefyd wedi sefydlu seminar flynyddol ar gyfer holl gyrff iechyd Cymru, sy'n sbarduno cynnydd a chystadleuaeth iach rhwng y cyrff hynny, i wreiddio a rhoi ar waith ddull gweithredu seiliedig ar hawliau plant yn eu gwaith. Yn enghraifft o'r gwaith hwn, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe wedi gweithio gyda'u Bwrdd Ieuenctid i wneud newidiadau ymarferol arwyddocaol i'w darpariaeth a hefyd wedi rhoi newid systemig ar waith yn achos y model gwasanaeth. Mae hyn wedi arwain at effeithiau amlwg ar fywydau plant unigol, y mae'r Bwrdd yn eu gwerthuso trwy hanesion cleifion. Mae pob bwrdd iechyd a bron pob ymddiriedolaeth iechyd naill ai wedi cymryd camau at roi dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant ar waith, neu wedi ymrwymo i wneud hynny.

Yn estyniad i hyn, rwyf hefyd wedi cynnig hyfforddiant a chefnogaeth i ystod o sefydliadau, gan gynnwys y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn Wrecsam a Bro Morgannwg, ac mae hynny wedi arwain at newidiadau, gan gynnwys ymwneud mwy systematig i blant a phobl ifanc â gwaith y cyrff hynny. Mae Cyngor Wrecsam wedi bod yn datblygu dulliau gweithredu systematig mewn sawl adran, gan gynnwys y gwasanaethau cymdeithasol ac addysg, ac enghraifft gynnar o hynny oedd lansio mynediad llawer mwy hwylus i blant i'r system gwynion.

---

[12] http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2017/4/schedule/1/enacted

[13] https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2017/04/The-Right-Way.pdf

[14] https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2018/03/Full-Lives-Equal-Access.pdf

Heddlu De Cymru fydd yr awdurdod heddlu cyntaf i fabwysiadu fy 'Ffordd Gywir', a gwreiddio dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant ar draws y gwasanaeth. Gyda chefnogaeth gan fy swyddfa, maen nhw'n gweithio gyda phlant ar siarter hawliau plant, ac maent wedi cynnwys Ymgysylltu â Phlant a Phobl Ifanc fel un o amcanion y Cynllun Cydraddoldeb ar y Cyd, gan ddyrannu rolau arweinyddiaeth i yrru eu dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant, a datblygu strategaeth, gweithgor a chynllun cyflawni.

Dyma rai enghreifftiau'n unig o sefydliadau cyhoeddus mawr y mae fy swyddfa'n eu cefnogi i roi dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant ar waith. Rwy'n dal i hybu dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant mewn dau draean o ysgolion cynradd, yn ogystal â mwy na chant o ysgolion uwchradd, trwy fy nghynlluniau llysgenhadon, sy'n cynnwys hyfforddiant i blant ac athrawon.

Er bod yr ymdrechion hyn yn hybu newid diwylliant pwysig, nid ydynt yn cynnwys mesurau ffurfiol i alw'r cyrff hyn i gyfrif, ac mae cynnydd yn fregus, ac yn gallu cael ei golli wrth i arweinwyr newid. Ar ben hynny, byddwn i'n croesawu gweld y Llywodraeth yn mabwysiadu'r Ffordd Gywir yn ffurfiol ar draws ei gwaith, i ddangos yr ymrwymiad parhaus hwnnw a'r arweinyddiaeth honno mewn perthynas â hawliau plant. Er bod rhai dogfennau fel Adroddiad Cydymffurfio 2018 wedi defnyddio'r egwyddorion yn strwythur amlinellol, rwy'n credu y bydd mabwysiadu'r dull hwn yn ffurfiol yn rhoi cyfle i swyddogion hyrwyddo hawliau plant ar draws y llywodraeth a symud y tu hwnt i gydnabod hawliau at ddull gweithredu gwirioneddol ymgorfforedig lle mae hawliau plant yn ganolog i lunio polisi.

Mae wedi bod yn destun balchder cenedlaethol mawr bod Cymru wedi arwain y ffordd ar hawliau plant ar draws y Deyrnas Unedig, gyda'r Comisiynydd Plant cyntaf a chyflwyno'r Mesur yn bwyntiau ffocws allweddol. Fodd bynnag, mae rhai o wledydd eraill y Deyrnas Unedig a Thiroedd sy'n Ddibynnol ar y Goron bellach yn cymryd camau ymlaen ar hyn, sef yr Alban a Jersey. Mae'r ddwy awdurdodaeth wedi cymryd y Mesur a'r model sylw dyledus yn fannau cychwyn, ond maent yn ceisio symud y tu hwnt i hynny at ymgorffori CCUHP yn llawn ac yn uniongyrchol. Mewn geiriau eraill, maent yn nodi diffygion posibl model sylw dyledus, gan nad yw'n gofyn yn uniongyrchol bod cyrff yn gweithredu mewn ffordd benodol yn rhagweithiol, a gall fod yn anoddach ei herio. Ar ben hynny, maent yn ceisio sicrhau ei fod yn ofynnol i gyrff cyhoeddus weithredu'n unol â CCUHP, yn hytrach na dangos eu bod wedi ystyried yr hawliau yn unig. Er y byddai hyn mewn egwyddor yn golygu bod modd i unigolion gyflwyno heriau cyfreithiol, nod pennaf dyletswydd o'r fath fyddai *osgoi* her gyfreithiol, trwy fynd ati'n rhagweithiol i fynnu bod cyrff cyhoeddus yn gweithredu fel hyn. Er mwyn i Gymru gadw i fyny â'r datblygiadau hyn, a sicrhau bod plant yng Nghymru yn gallu cael mynediad llawn i'w hawliau gan bob gwasanaeth cyhoeddus, mae rheidrwydd ar y Llywodraeth i ystyried sut mae modd estyn y dyletswyddau presennol yn y fan hon.

5. **I ba raddau mae Llywodraeth Cymru wedi gweithredu ei dyletswydd i hybu gwybodaeth a dealltwriaeth o CCUHP ymhlith y cyhoedd, gan gynnwys plant a phobl ifanc**

Mae Adran 5 o'r Mesur yn cynnwys dyletswydd ar Weinidogion i "gymryd pa gamau bynnag sy'n briodol i hybu gwybodaeth a dealltwriaeth ymhlith y cyhoedd (gan gynnwys plant) o'r Confensiwn a'r Protocolau."[15]

Gofynnodd Arolwg Cenedlaethol Cymru ar gyfer 2017-18 i'r cyfranogwyr a oedden nhw wedi clywed am CCUHP a beth roedden nhw'n deall amdano. Dywedodd 13% eu bod wedi clywed amdano a bod ganddyn nhw syniad gweddol o'r hawliau sydd dan sylw, roedd 21% wedi clywed amdano, ond doedden nhw ddim yn sicr pa hawliau oedd dan sylw, a doedd 65% ddim wedi clywed amdano. Nid oedd 66% o bobl ar aelwydydd lle roedd plentyn o dan 16 oed wedi clywed amdano.

Mae gofyn bod y Llywodraeth yn gwneud CCUHP yn hygyrch ac yn adnabyddus ledled Cymru. Mae hynny'n rhywbeth rwyf finnau'n ei wneud fel mater o drefn ym mhob rhan o'm gwaith, ond mae dyletswydd ar Weinidogion i wneud hynny hefyd. Mae hyn yn hyrwyddo Erthygl 42 o CCUHP. Roedd grŵp ymgynghorol bach yn arfer bodoli ochr yn ochr â'r Grŵp Ymgynghorol ar Hawliau Plant (CRAG) oedd yn ymdrin yn benodol â gwaith Erthygl 42; ond nid yw bellach yn cyfarfod. Mae fy swyddfa wedi awgrymu y dylid ei ailgynnull ar wahanol adegau i gefnogi datblygiad strategaeth gyfathrebu gynhwysfawr, ond ni chafwyd ymateb i'r awgrym hwn. Datblygiad diweddar iawn yw'r buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru mewn cynllun cyfathrebu newydd i gefnogi pen-blwydd y Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn yn 30 yng Nghymru. Fel rhan o'r gwaith hwn mae'r Llywodraeth wedi denu partneriaid allweddol i gefnogi'r gwaith, gan gynnwys fy swyddfa i. Rwyf wedi cael fy mhlesio gan y dull gweithredu hwn a'r buddsoddiad, a byddaf yn annog y Llywodraeth i barhau â'r dull hwn o weithio er mwyn sicrhau na chollir momentwm.

Mae'r Rheoliadau[16] sy'n llywodraethu fy swyddfa a'm rôl yn gofyn fy mod i'n cymryd camau rhesymol i sicrhau bod plant yn gwybod am y Comisiynydd, lleoliad y swyddfa a ffyrdd o gysylltu â ni. Mae hefyd yn ofynnol fy mod yn creu deunyddiau ar gyfer plant sy'n hygyrch ac yn briodol ar gyfer oed a dewisiadau iaith, a cheisio barn plant er mwyn llywio fy rhaglen waith. Rwy'n gwneud hyn mewn amrywiaeth o ffyrdd, ac rwyf newydd ddiweddaru fy ngwefan i sicrhau ei bod yn fwy hygyrch a hwylus i'w defnyddio. Rwyf wedi bod yn estyn cwmpas a chynnwys fy nghynlluniau 'Llysgenhadon'[17] sy'n cefnogi plant a phobl ifanc i ddysgu am eu hawliau a'u gweithredu yn eu hysgol neu eu cymuned. Fel rhan o hyn mae fy nhîm wedi bod yn gweithio ochr yn ochr â phlant ac athrawon i sicrhau bod ein gwaith Llysgenhadon yn hygyrch i blant ag anghenion dysgu ychwanegol a datblygu cyfres o wersi i alluogi plant iau i ddysgu am eu hawliau yn y Cyfnod Sylfaen.

Mae'r Cynllun Llysgenhadon hefyd yn galluogi plant a phobl ifanc i fwydo'n uniongyrchol i'm rhaglen waith. Rhai enghreifftiau o hyn yw'r ddau ymgynghoriad graddfa fawr, gyda degau o filoedd o blant,

[15] http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/2/section/5
[16] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2001/2787/regulation/22/made
[17] https://www.childcomwales.org.uk/our-schemes/

sydd wedi pennu fy mlaenoriaethau ar gyfer rhaglenni gwaith olynol, ein hadroddiadau pwysig ar fwlio, *Stori Sam*[18] a'n gwaith *Siarter ar gyfer Newid*[19] ar fynd i'r afael â thlodi plant.

Yn absenoldeb canolbwynt adnoddau wedi'i ddiweddaru ar hawliau plant yn Llywodraeth Cymru – rwy'n ymwybodol bod gwaith bellach yn digwydd i ddiwygio'r safle – rwyf hefyd wedi bod yn datblygu cyfres o adnoddau am ddim a chynnwys ar fy ngwefan, y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gallu cael eu cyrchu trwy Hwb, adnodd y gall athrawon, gweithwyr ieuenctid, gweithwyr cyfranogiad ac eraill ei ddefnyddio i helpu plant i ddysgu am eu hawliau, a defnyddio'u hawliau i wneud eu penderfyniadau eu hunain yn lleol. Rwyf wedi estyn yr ystod o adnoddau hygyrch gan ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain (BSL) a symbolau Widget, yn dilyn adborth gan blant a'u hathrawon. Mae fy holl adnoddau ar gael yn ddwyieithog. Ar ben hynny, eleni rwyf wedi lansio bathodyn Her Hawliau ar gyfer mudiadau'r Sgowtiaid a'r Geidiau; eto mae'r rhain ar gael am ddim ar fy ngwefan i unrhyw un eu cyrchu a'u defnyddio.[20]

Ers diwedd 2017 rwyf wedi bod yn trafod yn rheolaidd gyda'r gweinidogion Plant perthnasol ddathliad 30 mlynedd llofnodi CCUHP, sy'n digwydd ar 20 Tachwedd 2019 (Diwrnod Byd-eang y Plant). Rwy'n credu ei fod yn bwysig defnyddio'r pen-blwydd hwn yn gyfle i ddathlu cynnydd ar faterion hawliau plant yng Nghymru, ac i gydnabod pwysigrwydd hynny i fywydau pob dydd plant. Fel y nodwyd uchod, rydym wedi gweithio ochr yn ochr â'r Llywodraeth ac aelodau o CRAG i sefydlu ymgyrch o gynyddu ymwybyddiaeth a digwyddiadau ynghylch CCUHP eleni, a bydd yr ymgyrch yn cael ei lansio ar 19 Medi 2019. Mae fy swyddfa wedi chwarae rôl ymgynghorol allweddol yn hyn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac mae llawer o'm hadnoddau wedi cael eu defnyddio fel rhan o'r pecyn gwybodaeth greiddiol sy'n cael ei greu. Byddaf hefyd yn cynnal fy nigwyddiadau fy hun ac yn ymgysylltu â phlant yr wythnos honno, a byddaf yn gwahodd plant ac aelodau Cynulliad i ymuno â mi mewn digwyddiad amser cinio yn y Senedd ar 20 Tachwedd.

Pan gaiff ymgyngoriadau cyhoeddus eu lansio gan y Llywodraeth, o bryd i'w gilydd mae fersiynau penodol i blant a phobl ifanc neu fersiynau hygyrch wedi cael eu cyhoeddi. Gwaetha'r modd, nid yw hynny'n digwydd ym mhob achos, ond lle maent wedi cael eu cynnwys rwyf wedi manteisio ar y cyfle i groesawu hynny yn fy ymateb i'r ymgynghori. Fodd bynnag, hyd yn oed pan grewyd y fersiynau hyn ac mae peth o'r iaith ragarweiniol wedi bod yn syml ac yn uniongyrchol, mae wedi achosi rhwystredigaeth bod llawer o'r cynnwys wedi parhau i ddefnyddio jargon neu wedi gofyn bod darllenwyr yn darllen y ddogfen ymgynghori lawn yn ogystal i gael y cyd-destun llawn, a deall y byrfoddau sy'n cael eu defnyddio. Mewn rhai achosion, bu dogfen esboniadol i bobl ifanc, ond mae wedi cyfeirio defnyddwyr yn ôl at y rhestr lawn o gwestiynau ymgynghori yn y brif ddogfen. Mewn eraill, mae'r fersiwn hygyrch wedi bod yn rhagorol, ond heb gynnig dull o ymateb i'r ymgynghoriad. Hoffwn i fedru hyrwyddo ymgyngoriadau'r Llywodraeth yn ehangach trwy fy sianeli cyfryngau cymdeithasol, sy'n cael eu dilyn gan lawer o ysgolion, athrawon, clybiau ieuenctid ac aelodau o'r cyhoedd. Mae'n bwysig bod pobl ifanc yn cael cyfle i ymateb yn uniongyrchol i ymgyngoriadau, yn ogystal â bod eu barn yn bwydo i ymatebion fel fy un innau. Fodd bynnag, ar adegau rwyf wedi teimlo fy mod yn methu hyrwyddo llawer ar ymgyngoriadau sydd heb fod yn ddigon clir a hygyrch.

---

[18] https://www.childcomwales.org.uk/publications/sams-story/
[19] https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2019/04/A-Charter-for-Change-Protecting-Welsh-Children-from-the-Impact-of-Poverty.pdf
[20] https://www.childcomwales.org.uk/resources/

Rwyf wedi codi'r mater hwn gyda'm Cangen gyswllt yn flaenorol, yn ogystal â'i godi mewn ymatebion ymgynghori unigol. Un o'r enghreifftiau diweddar trawiadol yw'r ymgynghoriad ar 'Wella Cludiant Cyhoeddus'. Mae cael mynediad i gludiant cyhoeddus yn fater mae pobl ifanc ledled Cymru wedi'i godi gyda mi, ac mae'n un yr wyf yn sicr y byddai ganddynt farn gref arno, barn y byddent am ei rhannu mewn unrhyw gynigion ar gyfer newid. Cyhoeddwyd dogfen ymgynghori Cymuned a Ieuenctid oedd yn cynnwys y prif gynigion. Roedd adrannau rhagarweiniol y fersiwn honno'n cael eu hesbonio a'u cyflwyno'n glir, ac fe wnes i groesawu hynny yn fy ymateb. Fodd bynnag, roedd y cwestiynau eu hunain yn dal yn eithaf technegol ac yn cyfeirio at derminoleg a chysyniadau cymhleth fel Awdurdodau Trafnidiaeth ar y Cyd (JTA), Partneriaethau Gwell Ansawdd, Masnachfreintiau a thelerau Trwyddedu penodol. Er bod rhai ymdrechion yn y ddogfen i egluro'r termau hyn, nid oedd yn arbennig o glir o safbwynt esbonio digon o fanylion ynghylch sut byddai'r trefniadau hynny'n gweithio. Roedd y cwestiynau oedd yn dilyn yr esboniadau yn dal yn eitha technegol o ran iaith, ac yn ymddangos yn anodd ymateb iddynt; nid oedd yr esboniadau'n rhoi digon o wybodaeth i alluogi person ifanc i ateb y cwestiynau cyfyngol yn llawn.

Roedd diffygion tebyg yn y fersiwn ieuenctid a chymuned o *Pwysau Iach: Cymru Iach* Llywodraeth Cymru, a hynny o ran esbonio terminoleg, a chwestiynau nad oeddent yn rhoi cyfle priodol i blant a phobl ifanc ddefnyddio'u profiadau eu hunain i ymateb i gynigion unigol, ac amlygais i hynny yn y ymateb i'r ymgynghoriad.

Ar ben hynny, roedd yr ymgynghoriad ar y Côd Ymarfer ar gyfer darparu gwasanaethau awtistiaeth yn cynnwys fersiwn darllen hwylus, a gyhoeddwyd gyda'r prif gynigion. Roeddwn yn falch o nodi bod hwn yn darlunio amrywiaeth o blant gwahanol eu hoed. Fodd bynnag, roedd yn cyfeirio at ffurflen ymateb darllen hwylus, ond ni fedrwn ddod o hyd iddi, ac mae'n bosibl i hynny fod yn broblem i eraill oedd yn gobeithio ymateb i'r ymgynghoriad. Eto, fe godais i hyn yn fy ymateb a chyda swyddogion fy Nghangen gyswllt.

Y dadansoddiad mwyaf cyflawn a welais mewn CRIA hyd yma oedd cynigion 2018 ynghylch isafswm pris uned wrth werthu alcohol yng Nghymru. Roedd hynny'n arbennig o braf gan nad yw hwn yn faes y byddech chi'n meddwl yn awtomatig amdano fel un sy'n gysylltiedig â pholisi plant. Roedd y CRIA wedi'i baratoi'n ofalus, gyda dadansoddiad clir o'r effeithiau cadarnhaol a negyddol, ac roedd croesgyfeirio rhwng y rhain a darnau diweddar o ymchwil amlwg. Roedd y dadansoddiad hefyd yn edrych y tu hwnt i'r materion uniongyrchol oedd yn cael sylw yn yr ymgynghoriad ei hun, er mwyn cynnwys ystyriaethau iechyd a llesiant cysylltiedig, nid yn awr yn unig, ond hefyd i'r dyfodol. Roedd hynny'n golygu ei fod wedi ystyried nid yn unig yr effaith ar gyfer grwpiau allweddol megis y Llywodraeth, manwerthwyr a chwsmeriaid, ond hefyd wasanaethau fel cwnsela, gwasanaethau ataliol a'r rhai sy'n delio gyda niwed cudd.

Cafodd y CRIA ar gyfer y Bill Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol)(Cymru) hefyd ei baratoi'n drylwyr, gyda chroesgyfeirio at ymchwil berthnasol, ac roedd yn cynnwys opsiynau i liniaru unrhyw effaith negyddol bosibl a nodwyd.

Mae'r Cynllun Hawliau Plant cyfredol yn cynnwys gwybodaeth ar gyfer plant a phobl ifanc er mwyn "herio'r Gweinidog pan fyddan nhw'n teimlo nad yw Gweinidogion wedi cydymffurfio â dyletswydd

sylw dyledus wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau".[21] Mae fy adborth ar y diwygiadau i'r Cynllun wedi amlygu hwn fel maes y mae angen ei ddatblygu i fod yn fwy addas a hygyrch i blant. Byddai angen i'r iaith gael ei haddasu ac nid yw'r opsiynau sydd ar gael yn rhoi llawer o wybodaeth ynghylch sut gellir cefnogi person ifanc yn y broses hon. Fy awgrym i fyddai bod proses/taflen gwynion ar wahân yn cael ei chreu, fel bod plant a phobl ifanc yn gallu codi unrhyw faterion polisi maen nhw'n teimlo nad yw'r Llywodraeth yn eu cymryd o ddifri, ac i gael clywed eu lleisiau ar faterion sy'n bwysig iddyn nhw. Ni weithredwyd ar yr adborth hwn hyd yma.

Byddai cynnwys dyletswydd sylw dyledus yn neddfwriaeth y cwricwlwm yn fodd hynod effeithiol o gefnogi Llywodraeth Cymru i gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth, ac i gyflawni ei chyfrifoldeb o ran mynnu cydymffurfiad llawn â'r Confensiwn. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar Erthygl 4 (Mesurau Gweithredu Cyffredinol) CCUHP.

## 6. Sut mae'r ddyletswydd i roi 'sylw dyledus' i'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn yn cael ei gweithredu yn ymarferol, ac a yw Asesiadau Effaith ar Hawliau Plant yn cael eu defnyddio fel offeryn ystyrlon

CRIA yw prif offeryn Llywodraeth Cymru ar gyfer *darparu tystiolaeth* o sut mae dyletswydd sylw dyledus wedi bod yn destun cydymffurfio ar draws y Llywodraeth, wrth gynghori Gweinidogion. Nid yw'r CRIA, ynddo'i hun, yn ymarfer dyletswydd sylw dyledus, mae'n syml yn crynhoi ym mha ffyrdd mae swyddogion a Gweinidogion wedi rhoi sylw dyledus trwy eu gwaith. Trwy'r broses o gwblhau CRIA, gall ddod yn amlwg i swyddogion bod bylchau, efallai diffyg ymgysylltu â phlant a phobl ifanc wrth ddatblygu'r polisi. Trwy gwblhau'r CRIA yng ngham cynharaf datblygu polisi a'i adolygu'n barhaus, mae hynny'n caniatáu i broses y CRIA lywio a thywys sut mae dyletswydd sylw dyledus yn cael ei hymarfer.

Rwyf yn flaenorol wedi rhoi tystiolaeth ysgrifenedig a llafar i'r Pwyllgor hwn ar ansawdd darniog CRIA, yn arbennig y diffyg dadansoddi ar yr opsiynau, a lliniaru unrhyw ganlyniadau negyddol. Ymddengys i mi fod swyddogion sy'n paratoi CRIA yn amharod i nodi'n benodol unrhyw agweddau negyddol posibl ar benderfyniad polisi, ac rwy'n amau mai ofn ymgyfreitha sy'n gyfrifol am hynny. Yr hyn fyddai orau gennyf fi ei weld yw cydnabod unrhyw elfennau negyddol neu ddiffygion mewn polisi neu benderfyniad yn y fan honno, ond gyda chamau lliniaru clir, a bwriadau i adolygu'r sefyllfa'n barhaus. Byddai dadansoddiad cytbwys o'r opsiynau, gan gynnwys dadansoddiad manteision cost ac asesiad realistig o'r posibiliadau oddi mewn i unrhyw gyfyngiadau cyllidebol, yn dangos ystyriaeth lawn o'r holl faterion hawliau plant.

Byddai'n annhebygol i *unrhyw* bolisi fod â goblygiadau cwbl gadarnhaol neu niwtral ar gyfer y boblogaeth gyfan, felly mae sôn am y pethau cadarnhaol yn unig yn gwneud yr asesiad yn anghyflawn ac o bosibl yn gamarweiniol yn fy marn i. Bydd cyflawni hawliau plant bob amser yn galw am ystyriaethau cydbwyso gofalus, ynghylch sut mae gwahanol hawliau ac egwyddorion yn rhyngweithio, megis galluogi cyfranogiad plant yn erbyn ystyried beth allai fod er eu lles pennaf.

[21] http://www.assembly.wales/Laid%20Documents/GEN-LD9732%20-%20Children's%20Rights%20Scheme%202014-22042014-255569/gen-ld9732-e-English.pdf

Mae'r diffyg dadansoddi ar opsiynau ym mwyafrif y CRIA y mae fy swyddfa wedi'u gweld yn wendid pwysig yn y fformat a'r gweithrediad cyfredol. Gallai hynny fod oherwydd bod y fformat yn holi am effeithiau cadarnhaol a negyddol, ond nad yw'n cwestiynu'r awdur yn awtomatig ynghylch y casgliadau. Ar hyn o bryd mae Gweinidogion yn dibynnu ar gasgliad CRIA fel prif ffordd o ymarfer sylw dyledus, a dylent bryderu nad yw'r cyngor sy'n cael ei ddarparu iddynt o reidrwydd wedi'i seilio ar ystyriaeth lawn o'r holl faterion perthnasol fel rhan o'r dadansoddiad ehangach hwnnw. Nid yw fy nhîm a minnau bob amser wedi gallu ystyried ansawdd y dadansoddiad o'r effaith ar hawliau plant oherwydd nad yw CRIAs bob amser wedi cael eu darparu i'm tîm mewn modd prydlon.

Dyma rai enghreifftiau diweddar o'r pwyntiau hyn:

Cynigion Cwricwlwm i Gymru: gofynnodd fy nhîm am gopi o hyn ym mis Mai 2019, gan nad oedd wedi'i gyhoeddi ochr yn ochr â'r ymgynghoriad. Derbyniwyd y CRIA yn y pen draw ym mis Awst 2019, er ei fod wedi'i ddyddio Mai 2019 (v3). Roedd y CRIA yn ei hanfod yn ddisgrifiad o gamau gweithredu, yn hytrach nag asesiad effaith gwirioneddol. Ni allwn archwilio hyn yn llawn yn fy ymateb i'r ymgynghoriad, gan na chafodd y CRIA ei ddarparu yn ystod y cyfnod pan oedd ar agor, er i ni fynd ar ei ôl.

Y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu): Fel oedd yn ofynnol, cyhoeddwyd CRIA ochr yn ochr â'r Bil Drafft, ac roedd yn cyfeirio at nifer o effeithiau cadarnhaol posibl o ganlyniad i'r cynigion. Fodd bynnag, yr unig effaith bosibl o blaid Hawliau a ddisgrifiwyd yn yr Asesiad Effaith Integredig oedd un 'canlyniadol'. Wrth archwilio'r cynigion yn llawn, cefais fy siomi o nodi bod y cynigion Llais y Dinesydd heb archwilio'n llawn y posibilrwydd ar gyfer cyfranogiad plant, ac mae'n bosibl mai dyna pam yr oedd yn cael ei nodi fel un canlyniadol yn unig. Ymhellach, yr oedd y Bil yn brin o eglurder yn gyffredinol ynghylch pa rannau oedd yn berthnasol i blant a phobl ifanc, gan gynnwys unrhyw gymorth eiriolaeth. Byddai CRIA ac Asesiad Effaith Integredig (IIA) mwy trylwyr wedi cydnabod y potensial oedd yn y cynigion hyn i roi hwb ymlaen i hawliau plant, a gallent fod wedi cael eu defnyddio i lywio a sbarduno cyfeiriad polisi mwy cynhwysol a llesol i hawliau. Roedd hon yn enghraifft glir o gynnig deddfwriaethol pwysig oedd heb gael ei ystyried yn drylwyr mewn perthynas â phlant.

Roeddwn yn pryderu hefyd wrth glywed yn gynharach eleni nad oes bellach unrhyw hyfforddiant gorfodol ar gyfer swyddogion y Llywodraeth sy'n gyfrifol am ddatblygu polisi a pharatoi CRIA. Ar ben hynny, mae'n bosibl bod swyddogion wedi dilyn hyfforddiant sylfaenol wrth ymuno â'r sefydliad gyntaf, ond nid oes gofyniad i roi sylw pellach i hyn adeg dyrchafiad i rolau megis Dirprwy Gyfarwyddwr, rôl sy'n cynnwys gofyniad i gadarnhau'r CRIA yn derfynol. Yn yr un modd, nid oes hyfforddiant i Weinidogion ar sut mae ymarfer sylw dyledus i hawliau plant trwy eu rôl. Yn gynharach eleni roeddwn i'n falch o fanteisio ar y cyfle i gwrdd â Chyfarwyddwyr ar draws y Llywodraeth, ar wahoddiad yr Ysgrifennydd Parhaol. Llwyddais i gynnig her adeiladol i'r rhai oedd yn bresennol, gan gynnwys cwis ar hawliau plant a CCUHP, i'w helpu i ystyried pa mor ddysgedig ydyn nhw a'u staff ar hawliau plant a dyletswyddau'r Llywodraeth yn y maes hwn. Cafodd hyn dderbyniad cadarnhaol, ac yn sicr ymddangosai ei fod yn peri i rai Cyfarwyddwyr gydnabod bylchau yn eu gwybodaeth. Heb hyfforddiant gorfodol, fodd bynnag, byddwn i'n dal i bryderu na fyddai hynny o bosibl yn trosi'n ddatblygiad polisi gwell ar draws y Llywodraeth. Gallai hwn fod yn faes lle mae'r Pwyllgor yn ystyried gwneud argymhelliad. Mae'n agored i'r Llywodraeth wneud unrhyw newidiadau mae'n eu dymuno i'r Cynllun megis gwneud hyfforddiant yn orfodol.

Mae'r hawl i gyfranogi yn un o egwyddorion tywys CCUHP, ac yn sgîl hynny mae'n cynrychioli gofyniad gwaelodol i wireddu hawliau plant. Mae cyfleoedd i lywio gwell gwaith llunio polisi trwy well cyfranogiad gan blant a phobl ifanc, sy'n mynd y tu hwnt i ymgynghori ar gynigion a ddatblygwyd eisoes yn unig. Rwy'n croesawu sefydlu Grŵp Cenedlaethol Rhanddeiliaid Ifanc er mwyn datblygu dull ysgol gyfan o ymdrin â iechyd meddwl a llesiant. Byddai meysydd polisi eraill yn elwa mewn modd tebyg o fodelau cyfranogiad o'r fath. Er enghraifft, fe alwais droeon am gyfranogiad plant a phobl ifanc wrth ddylunio'r cwricwlwm, a chyflwyno argymhellion ynghylch hynny yn fy Adroddiadau Blynyddol yn 2015/6 a 2017/8. Cafodd yr argymhelliad hwn yn 2015/6 dderbyniad cadarnhaol gan Lywodraeth Cymru, ac yn 2016 sefydlwyd is-grŵp o'r grŵp rhanddeiliaid strategol, i edrych yn benodol ar gyfranogiad. Fodd bynnag, diddymwyd y grŵp hwn, ac er gwaethaf ymdrechion sylweddol gennyf fi, ni fu cyfle ar gyfer cyfranogiad plant a phobl ifanc tan dymor yr haf 2019. Erbyn hynny roedd y cyfle i fynd ati i lunio rhywbeth estynedig ar y cyd â phlant a phobl ifanc ar lefel genedlaethol wedi mynd heibio, ac roedd hynny'n cynrychioli model cyfranogiad lle roedd pobl ifanc yn destun ymgynghori ac yn cael gwybodaeth, yn hytrach na chydgynhyrchu polisi.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Llywodraeth wedi ymgynghori â'r Grŵp Ymgynghorol ar Hawliau Plant (CRAG), y mae fy swyddfa'n cael ei chynrychioli arno, yng nghamau datblygiadol rhai Asesiadau Effaith ar Hawliau Plant (CRIA). Mae hwn wedi bod yn ddatblygiad i'w groesawu, sydd wedi rhoi cyfle i swyddogion gwrdd â'r CRAG a thrafod eu syniadau, gan dderbyn cyngor ar unrhyw fylchau amlwg neu bethau maent heb eu hystyried, a sut mae cadw'r ddysgl yn wastad wrth gyflwyno argymhelliad i'w Gweinidog. Mae hwn wedi ymddangos yn ddull gweithredu defnyddiol, a ddilynwyd hefyd gan swyddogion o'r Is-adran Addysg a Phlant a Theuluoedd. Un peth sydd wedi dod i'r amlwg eto trwy'r sesiynau hyn yw'r diffg *dadansoddi* ar opsiynau a'r diffyg paragraff clo yn cyflwyno'r union gyngor a roddir i'r Gweinidog.

Mae'r templed/fformat newydd sy'n bwydo i'r Asesiad Effaith Integredig ehangach yn gofyn i'r awdur gyflwyno effaith gadarnhaol a negyddol y polisi, sy'n ychwanegiad i'w groesawu. Carwn nodi, fodd bynnag, hyd yn oed gyda fformat newydd, nad yw'r CRIA a welais wedi dilyn hyn yn gyson, felly mae rhai yn syml wedi gofyn cwestiynau mwy cyffredinol am effaith, yn hytrach nag ystyried effaith gadarnhaol a negyddol yn benodol. Serch hynny, rwy'n teimlo bod adran glo yn dal ar goll, ac felly bod yr asesiad a'r cyngor i'r Gweinidog yn anghyflawn.

Rwyf wedi bod yn gweithio ar fy nhempled CRIA fy hun yn ystod yr wythnosau diwethaf, a fyddai'n tywys defnyddwyr trwy egwyddorion dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant, ac yn annog yr awdur i ystyried nid yn unig beth wnaed hyd yma, ond pa opsiynau eraill allai gael eu datblygu, sut bydden nhw'n gwneud hynny, a sut maen nhw wedi cynnwys plant ar hyd y broses. Er ei fod wedi'i fwriadu ar gyfer amrywiaeth o gyrff cyhoeddus, cododd y gwaith hwn yn dilyn cais gan nifer o awdurdodau lleol, a byddwn yn barod i'w rannu'n eang, gan gynnwys gyda'r Llywodraeth, ar ôl ei gwblhau. Rwyf wedi teimlo'r angen am baratoi'r ddogfen hon oherwydd ansawdd amrywiol CRIA a'r diffyg dadansoddi a chyngor terfynol a welais yn rhy aml.

7. **Effeithiolrwydd y Cynllun Hawliau Plant ac adroddiad cydymffurfio diweddaraf Llywodraeth Cymru, ac i ba raddau y maent yn tystio i weithredu digonol ar ran Llywodraeth Cymru i sicrhau gweithrediad llawn y Mesur**

Mae'r Mesur yn gofyn bod Cynllun Hawliau Plant yn cael ei gynnal, a bod Adroddiad Cydymffurfio yn cael ei baratoi bob 2.5 blynedd. Cyhoeddwyd yr adroddiad Cydymffurfio diwethaf ym mis Mawrth

2018[22], a daeth i'r casgliad y dylid diwygio'r Cynllun (gofyniad sydd i'w ystyried yn benodol mewn unrhyw adroddiad cydymffurfio) ac y byddai hynny'n digwydd erbyn mis Rhagfyr 2018. Mae fy nhîm a minnau wedi codi hyn yn rheolaidd gyda swyddogion ers hynny, gan nad oedd y gwaith hwn, gwaetha'r modd, yn dod i'r amlwg. Cyhoeddwyd yr Adroddiad Cydymffurfio a'i roi gerbron, ond ni chafodd ei gyflwyno ar gyfer trafodaeth lawn yn y Senedd.

Dechreuodd y gwaith yn y diwedd, a rhannwyd drafft diwygiedig ddiwedd Ebrill 2019, ddyddiau cyn y cyfarfod CRAG ar 1 Mai 2019. Mae fy swyddfa yn ymgynghorai statudol ar gyfer unrhyw ddiwygiadau i'r Cynllun, ac roeddem ni'n pryderu ein bod ni wedi cael cyn lleied o rybudd bod angen ymateb cyn bod bwriad i'r cynllun fod yn destun ymgynghori cyhoeddus.

Roeddem ni'n siomedig iawn o weld mai ychydig iawn o newidiadau a wnaed yn y drafft diwygiedig, er gwaethaf ymrwymiadau clir yn Adroddiad Cydymffurfio 2018. Yn dilyn y cyfarfod, anfonodd fy nhîm adborth dilynol manwl at swyddogion, gan gynnwys strwythur diwygiedig ar gyfer y Cynllun a fyddai'n cynnwys yr holl elfennau gofynnol, a hefyd yn estyn diben a chwmpas y Cynllun ymhellach, yn unol â'r bwriad. Roedd y strwythur newydd yn canolbwyntio ar bum egwyddor dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant *Y Ffordd Gywir,* a fyddai'n berthnasol i'r Llywodraeth, yn ogystal ag i gyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru. Cynigiodd y tîm gydweithio'n agos â swyddogion a/neu fynychu gweithdai i helpu i ailddrafftio'r cynllun, ond ni fanteisiwyd ar y cynnig yma hyd yn hyn. Cytunwyd hefyd yn CRAG y byddai'n well i'r Llywodraeth ddiwygio'r cynllun er mwyn ei gael yn iawn, yn hytrach na chanolbwyntio ar derfyn amser artiffisial, sef egwyl yr haf.

Rhannwyd ail ddrafft gyda'm tîm ar 9 Medi 2019, eto ddyddiau'n unig cyn cyfarfod nesaf CRAG ar 11 Medi. Y consensws ymhlith aelodau CRAG yn y cyfarfod hwn oedd nad oedd y drafft diwygiedig yn glir ynghylch *sut* dylai swyddogion Llywodraeth Cymru fod yn cyflawni dyletswydd sylw dyledus, a pha help, cefnogaeth, hyfforddiant neu adnoddau oedd ar gael iddynt wneud hynny. Mae angen iddo weithredu fel llawlyfr i gefnogi swyddogion i sicrhau sylw dyledus, yn hytrach na dim ond ticio blwch i ddweud bod CRIA wedi cael ei gwblhau. Ar ben hynny, mae'r drafft diwygiedig yn dal heb ddatblygu'r meysydd a nodwyd yn adran 'camau nesaf' yr Adroddiad Cydymffurfio, sef cynllun diwygiedig ar gyfer ariannu hyfforddiant allanol, adolygu ac estyn strategaeth gyfranogiad y Llywodraeth, gweithredu argymhellion yr adroddiad blaenorol i wella ansawdd CRIA a symud tuag at ganolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau i blant. Ni ddilynodd y drafft diwygiedig hwn egwyddorion Y Ffordd Gywir. Mae disgwyl yn awr i ddrafft pellach gael ei rannu ym mis Hydref 2019; mae fy nhîm unwaith eto wedi cynnig cefnogaeth i aileirio ac ailstrwythuro'r drafft.

Rhaid i mi bwysleisio bod fy swyddfa'n cynnal perthynas adeiladol gyda'n cangen gyswllt, ac ar sail hynny gallwn ddarparu adborth pendant a chynnal trafodaeth gadarn ond cadarnhaol gyda swyddogion. Rwy'n croesawu'r ymgysylltiad agored hwn, gan ei fod yn caniatáu i mi gyflawni fy nghylch gorchwyl o ran craffu. Gan bod y cynllun presennol yn parhau'n weithredol ar hyd y broses hwn, rwyf wedi egluro wrth swyddogion y byddai'n well gen i weld rhywfaint o oedi gyda'r cynllun diwygiedig os yw hynny'n golygu y bydd y canlyniad terfynol yn well o safbwynt gwaith hawliau plant yn y Llywodraeth.

[22] https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-06/rights-of-children-and-young-people-compliance-report.pdf

Ar ben hynny, mae Cynllun Hawliau Plant 2014 yn cynnwys y Rhwydwaith Plant mewnol, lle byddai uwch swyddogion o bob rhan o'r Llywodraeth yn dod at ei gilydd i drafod materion plant. Rwyf wedi rhoi cyflwyniad i'r Rhwydwaith fwy nag unwaith, ac rwy'n credu ei fod yn drefniant da a fyddai'n hyrwyddo gweithio ar draws y llywodraeth. Ond pryd bynnag yr wyf wedi holi am y Rhwydwaith, ymddengys nad yw'n cyfarfod yn arbennig o reolaidd. Nid oes cyfeiriad at y Rhwydwaith hwn yn y drafft diwygiedig ar hyn o bryd, ac o ystyried y materion rwyf wedi'u codi uchod a'u trafod gyda'r Pwyllgor o'r blaen ynghylch diffyg 'cydlynu' rhagweithiol ar draws y Llywodraeth, rwy'n teimlo bod hynny'n golled bwysig.

Mae'n rhaid i unrhyw gynllun cydymffurfio gynnwys metreg fel sawl CRIA a gwblhawyd a niferoedd yr aelodau staff sy'n mynychu hyfforddiant hawliau plant. Nododd adroddiad 2018 ostyngiad yn nifer y CRIAs a'r rhai oedd yn mynychu hyfforddiant, ond ni chynhwyswyd unrhyw gynigion ar gyfer rhoi sylw i'r dirywiad hwnnw. Gan fod ymrwymiad wedi'i wneud eisoes yn yr adroddiad hwnnw i ddiwygio'r Cynllun, roedd yn gyfle delfrydol i estyn ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o hawliau plant ar draws y Llywodraeth yn hytrach na pharhau â'r status quo. Bydd trosiant staff a llawer o newidiadau rôl wedi digwydd yn ystod y blynyddoedd ers i'r Mesur ddod i rym gyntaf, ac ni ellir rhagdybio bod pawb o fewn y Llywodraeth wedi derbyn yr wybodaeth a'r hyfforddiant diweddaraf.

## 8. Pa mor effeithiol mae Llywodraeth Cymru yn ymateb yn strategol i Sylwadau Terfynol Pwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn

Mae Sylwadau Terfynol Pwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn yn cael eu cyfeirio'n ffurfiol at Lywodraeth y Deyrnas Unedig, sef y Parti Gwladol perthnasol a ymrwymodd i'r Confensiwn. Ond bydd rhai meysydd sy'n ymwneud yn rhannol neu'n llwyr â meysydd datganoledig sy'n gyfrifoldeb i Lywodraeth Cymru.

Yn unol â'm hawgrym, ym mis Gorffennaf 2017, cyflwynodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant ddatganiad yn nodi blwyddyn ers cyhoeddi Sylwadau Terfynol 2016.[23] Er bod hwn yn gam i'w groesawu, nid oedd y datganiad yn ymdrin yn uniongyrchol â'r argymhellion perthnasol, ac roedd yn syml yn amlygu'r meysydd lle roedd gan y Llywodraeth eisoes gynlluniau ar gyfer datblygiadau polisi neu ddeddfwriaeth, ar sail maniffesto'r flwyddyn flaenorol a'r strategaeth *Ffyniant i Bawb*.

Cyhoeddodd y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol ar y pryd ddatganiad[24] i nodi'r ail ben-blwydd. Roedd y datganiad hwn yn ddigon tebyg i ddatganiad y flwyddyn flaenorol, ac eto nid oedd yn rhoi sylw uniongyrchol i'r argymhellion, gan gynnwys y rhai lle nad yw Llywodraeth Cymru wedi gweithredu eto.

Nid wyf yn ymwybodol o gyhoeddi datganiad ar y trydydd pen-blwydd ym mis Gorffennaf 2019, ac nid wyf wedi gallu cael hyd i unrhyw beth ar wefan y Llywodraeth.

[22] https://gov.wales/written-statement-marking-first-anniversary-publication-un-committee-rights-childs-concluding
[23] https://gov.wales/written-statement-marking-second-anniversary-publication-un-committee-rights-childs-concluding

Er nad ydym wedi profi hynny'n systematig, wrth siarad â swyddogion o amrywiaeth o adrannau'r llywodraeth, nid ymddengys eu bod yn ymwybodol o'r Sylwadau Terfynol sy'n berthnasol i'w maes polisi.

Ni chyhoeddwyd atodlen o'r argymhellion sy'n berthnasol i Gymru ac asesiad y Llywodraeth o gynnydd yn eu herbyn. Ym mis Tachwedd 2019 bydd Comisiynwyr Plant y Deyrnas Unedig a Jersey yn cyhoeddi adroddiad ar y cyd ar gynnydd y Deyrnas Unedig yn erbyn Sylwadau Terfynol 2016. Ein hasesiad ni ein hunain fydd hwn o gynnydd yn erbyn yr argymhellion hynny. Bydd yr adroddiad yn amlygu meysydd cynnydd ym mhob un o'r gwledydd, ond bydd hefyd yn cyflwyno meysydd sy'n parhau, a lle mae gwaith i'w wneud i sicrhau cynnydd a chynhaliaeth i hawliau plant o dan CCUHP. Rhennir yr adroddiad hwn gyda'r Pwyllgor, a bydd fy swyddfa'n cyhoeddi fersiwn benodol i Gymru, yn ogystal â fersiwn hygyrch.

Mae Adran 2 (4) o'r Mesur yn datgan bod "rhaid i Weinidogion, o fewn chwe mis i'r Pwyllgor gyflwyno unrhyw awgrym neu argymhelliad cyffredinol o dan erthygl 45(d) ar sail un o adroddiadau'r Deyrnas Unedig, ystyried a ddylid diwygio neu ailgreu'r cynllun yng ngoleuni'r awgrym neu'r argymhelliad hwnnw." Mae felly'n statudol ofynnol i ystyried o leiaf a oes angen diwygio'r Cynllun yn sgîl cynnwys y Sylwadau Terfynol. Er enghraifft, petai Pwyllgor y CU yn codi pwynt ynghylch mynediad at fecanweithiau cwynion a mesurau unioni barnwriaethol, gallai fod angen diweddaru'r Cynllun. Nid wyf yn ymwybodol bod hyn chwaith erioed wedi digwydd; os ydyw, ni thrafodwyd hynny na'i rannu gyda'm swyddfa, ac ni chafodd ei gyhoeddi.

**Diweddglo**

Rwy'n croesawu'n gynnes graffu'r Pwyllgor ar effaith y Mesur a'r cyfle i roi fy marn yn y cyswllt hwn. Rwy'n falch o lawer o hanes Cymru ynghylch hawliau plant ac rwy'n ymwybodol iawn mai'r Mesur yw'r cam cyfreithiol cryfaf hyd yma o ran gweithredu hawliau plant yn y Deyrnas Unedig. Fodd bynnag, nid wyf yn teimlo bod mesur ein hunain yn erbyn gweddill y Deyrnas Unedig yn darged digon uchelgeisiol, ac fe hoffwn i weld Cymru'n cyrraedd y safonau rhyngwladol gorau oll. Byddaf yn parhau i gydnabod gwaith da gan Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill, ond byddaf hefyd yn pwyso am weithredu hawliau dynol plant yn fwy systematig.

I grynhoi, er bod y Mesur yn ychwanegiad i'w groesawu i dirlun cyfreithiol Cymru, yn fy marn i mae mwy i'w wneud yn amlwg i estyn ei gwmpas a'i effaith er mwyn sicrhau bod hawliau plant yn cael eu cymhwyso'n uniongyrchol ac yn hygyrch ledled Cymru. Rwy'n teimlo nad yw'r Cynllun Hawliau Plant presennol, sy'n trosi dyletswyddau'r Mesur yn waith beunyddiol i'r Llywodraeth, yn gwneud yn fawr o'r cyfleoedd i ddatblygu ac estyn cymhwyso a gwireddu hawliau plant ar draws holl feysydd gwaith y Llywodraeth, ac mae angen i'r Llywodraeth weithredu i gyflawni hyn. Er bod angen i gamau fel CRIA ddigwydd i ddarparu tystiolaeth o ddyletswydd sylw dyledus o dan y cynllun presennol, mae angen cynnwys llawer mwy o fanylion a gofynion yn y Cynllun diwygiedig, i wrthweithio'r problemau ansawdd a phrydlondeb a nodwyd yn yr ymateb hwn. Ar ben hynny, nid wyf yn sicr eto bod y Mesur wedi'i wreiddio'n ddigonol ar draws y Llywodraeth i gael yr effaith fwyaf bosibl ar bolisi a phenderfyniadau ynghylch unrhyw faterion sy'n berthnasol i blant.

Nid yw gwreiddio CCUHP ar draws arfer a gweithdrefnau'r Llywodraeth yn dechrau a gorffen wrth gyflwyno'r Mesur. Fel y nodwyd yn yr ymateb hwn, mae'n un ffordd o alw'r Llywodraeth i gyfrif ynghylch sylw dyledus i CCUHP, ond gellid sicrhau cynnydd a gweithredu pellach i hyn mewn llawer o

ffyrdd eraill, gan gynnwys ymgorffori CCUHP ymhellach, fel bod dyletswyddau gan bob corff cyhoeddus yng Nghymru. Mae disgwyl i weithredu CCUHP fod yn broses o 'sylweddoli cynyddol', ac mae llawer mwy y gellid ei wneud yng Nghymru i barhau â'r daith hon, gan gynnwys y posibilrwydd o estyn fy rôl a'm cylch gorchwyl innau fel sefydliad hawliau plant annibynnol Cymru.

Cyflwynwyd gan

Sally Holland

Comisiynydd Plant Cymru